Rheolaeth

MEDDYLIWCH AMDANI

Mai 2006

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.

Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.

Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob mis, yw'ch helpu chi i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.

Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

gwyneth.stroud @crc-wmc.org.uk

Cadw Hyd Braich

Sylwodd Miranda Kennett, sy'n hyfforddwr busnes blaenllaw, fod rheolwyr yn colli'r ffordd pan fyddan nhw'n ceisio bod yn rhy gyfeillgar â'r staff, yn enwedig y rheiny yr oedden nhw'n ffrindiau â nhw cyn iddyn nhw gael eu dyrchafu i swydd weithredol.

A fuoch chi'n brwydro erioed i greu gwahanol fath o berthynas â'r rheiny a oedd unwaith yn gymheiriaid â chi, ond y mae gennych chi awdurdod drostyn nhw bellach? Sut mae cadw hyd braich yn broffesiynol a bod yn amhleidiol ac yn gredadwy heb golli'r ewyllys da y mae arnoch ei angen i gyflawni'ch swydd, ac heb dramgwyddo pobl?

Arwyddion cynnil

"Nid yr hyn rydw i'n ei ddweud, ond yr hyn rydych chi'n ei glywed sy'n bwysig" meddai'r ymgynghorydd adnoddau dynol rhyngwladol Stephen Young. Roedd yn disgrifio " micro-anghyfiawnderau", sef y llu arwyddion cynnil a di-eiriau y mae rheolwyr yn eu rhoi i'w staff, sy'n gallu peri iddyn nhw deimlo nad oes gwerth na chroeso iddyn nhw yn y cwmni.

I ba raddau ydych chi'n ymwybodol o'ch cyfathrebu di-eiriau chi? Ydych chi'n hyderus nad ydych chi'n anfwriadol yn cyfleu "gwefr negyddol" a allai yrru gweithwyr addawol ymaith?

Ymroddiad i'r achos

Darganfu ymchwil gan YouGov ar ran Intuit, sef cwmni hyfforddi rheolwyr, fod un ym mhob deg o berchnogion busnesau bach yn cyfaddef eu bod nhw'n fwy brwd dros eu busnes nad ydyn nhw dros eu cymar oes.

Ynteu a ydy'r ffigwr yn uwch na hynny, yn eich barn chi? Oes yna lawer mwy o reolwyr yn dioddef o'r syndrom yma? A wnaethoch chi lithro i'r meddylfryd yma rywdro? Ydy ymroddiad mor ddiwyro yn arwain at reoli'n fwy ynteu'n llai effeithiol tybed?

Integreiddio'r newydd-ddyfodiaid

Amcangyfrifir bod 345,000 o bobl o ddwyrain Ewrop wedi ymsefydlu yn y DU ers i'r UE ehangu ei ffiniau dair blynedd yn ôl. Mae llawer o sectorau yn yr economi yn cyflogi'r newydd-ddyfodiaid yma erbyn hyn.

Fel rheolwr, a ydych chi'n meddu ar yr holl sgiliau sy'n angenrheidiol i drin y problemau diwylliannol, ieithyddol ac ymarferol a allai godi wrth ichi geisio integreiddio gweithwyr o'r fath i'ch tîm staff? Allwch chi, neu allech chi reoli eu perthynas ag aelodau eraill o staff, ac allech chi ddefnyddio'u cyfraniad i'r busnes hyd yr eithaf?

Beth sy'n eich gyrru chi ymlaen?

Mewn arolwg diweddar, darganfu'r ymgynghorwyr adnoddau dynol DDI Europe mai ydnabyddiaeth gyhoeddus o'u doniau a'u cyfraniad yw'r prif gymhelliant sy'n gyrru 31% o benaethiaid cwmnïau yn Ffrainc i geisio llwyddo yn eu gwaith. O'i gymharu â hyn, 2% yn unig o reolwyr cwmnïau ym Mhrydain oedd yn teimlo bod cydnabyddiaeth gyhoeddus yn gymhelliant allweddol iddyn nhw.

Pa mor dda ydych chi'n deall yr hyn sy'n eich gyrru i lwyddo fel rheolwr? Allech chi ddefnyddio'r cymhellion yma i roi mwy o ffocws i chi'ch hun a'ch galluogi i gyflawni mwy yn eich rôl fel rheolwr?

Gwefannau Rheolaeth

www.businesslink.gov.uk –Mae Business Link wedi lansio cyfres o ganllawiau astudiaethau achos, yn annog busnesau bach i roi hwb i'w perfformiad trwy fabwysiadu dulliau arloesol o weithio. Mae'r canllawiau yma'n cynnwys cyngor ymarferol, di-lol a realistig ac yn dangos camau ymarferol sydd wedi

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council

Tywys Cymru Tuag At Ragoriaeth ym maes Rheolaeth